Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad ar Gartrefi Gofal i Blant sy'n Gweithredu heb Gofrestriad

## 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

Hydref 2023

# Cynnwys

Cyflwyniad ....... 3
Cefndir ....... 3
Canfyddiadau allweddol ....... 4
Ein proses ar gyfer cartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad ....... 5
Nifer y cartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad ....... 6
Awdurdodau lleol sy'n lleoli plant ....... 7
Rhesymau dros leoli mewn gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad ....... 9
Hyd yr amser y gwnaeth gwasanaethau weithredu heb gofrestriad ....... 10
Proffil plant sy'n byw mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad ....... 10
Casgliad ....... 12
Atodiad 1 – Canllawiau ar gofrestru ....... 13
Atodiad 2 – Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi ....... 13
Atodiad 3 – Canllawiau ymarfer diwygiedig gan Lywydd yr Adran Deulu ....... 13

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2023 WG48579 ISBN Digidol 978-1-83504-778-1

## Cyflwyniad

1. Mae sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael gofal a chymorth o ansawdd uchel i hyrwyddo eu llesiant ac i'w helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn un o nodau cyffredin awdurdodau lleol, darparwyr ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
2. Fel rheoleiddiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru, un o swyddogaethau craidd AGC yw sicrhau mai dim ond y bobl hynny y bernir eu bod yn addas ac sy'n debygol o ddarparu gofal o ansawdd da a gaiff eu cofrestru i wneud hynny. Mae'r broses gofrestru yn borthor i'r rhai sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig, ac mae'n gam cyntaf tuag at ddiogelu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cael gofal o ansawdd da.  Unwaith y bydd gwasanaeth wedi'i gofrestru, bydd gwaith monitro ac arolygu parhaus gan AGC yn helpu i sicrhau bod darparwyr yn parhau i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel i bobl. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn nodi ac yn diffinio'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'n ofynnol iddynt gofrestru, gan gynnwys diffiniad o wasanaeth cartref gofal.
3. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gwasanaethau cartrefi gofal i blant a allai fod yn gweithredu heb gofrestriad. Cyfeirir atynt hefyd fel gwasanaethau anghofrestredig. Ni ddylid drysu rhwng hyn a'r term 'gwasanaeth heb ei reoleiddio', sy'n cyfeirio at wasanaethau nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru ag AGC.
4. Ein nod wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn yw tynnu sylw at gyfres gymhleth iawn o broblemau, yn y gobaith y gellir ysgogi pawb sy'n gysylltiedig â diogelu plant sy'n derbyn gofal i fwrw ati i gymryd camau ar y cyd i ddatrys problemau ac i weithredu. Fel bob amser, anaml iawn y gall un asiantaeth ddatrys problemau cymhleth ar ei phen ei hun ac mae angen ymdrech gydweithredol..
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r data a gasglwyd o bob achos lle roedd gwasanaeth yn gweithredu heb gofrestriad y cawsom ein hysbysu amdano rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

## Cefndir

6. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol o dan adran 78 a 79 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plentyn sy'n derbyn gofal; ac i ddarparu llety. Yn ogystal, mae dyletswyddau arnynt o dan adran 75 o Ddeddf 2014 i sicrhau llety digonol i blant sy'n derbyn gofal.
7. Fel y gwnaethom nodi yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2019, mae diffyg lleoliadau addas i ddiwallu anghenion nifer bach, ond nifer sy'n cynyddu, o blant. Gwyddom fod yr awdurdodau lleol, a gefnogir yn aml gan Gonsortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru (4C), yn cysylltu â sawl darparwr cofrestredig i drefnu gofal

a chymorth addas i blant. Weithiau, mae'r darparwyr yn nodi bod galw uchel (gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr) am leoedd cyfyngedig. Ar unrhyw adeg benodol, gallai fod lleoedd gwag mewn rhai cartrefi gofal i blant, ond yn aml nid yw'r darparwyr hyn yn gallu diwallu anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc. Gall hyn achosi problem o gofio bod angen ystyried cydnawsedd yr unigolyn â phlant eraill sydd eisoes yn byw mewn cartref gofal cofrestredig.

8. O ganlyniad i'r diffyg hwn o ran darpariaeth addas i blant ag anghenion mwy cymhleth, mae rhai awdurdodau lleol wedi llunio trefniadau yn y fan a'r lle i ddiwallu anghenion y plant hyn ar unwaith, a hynny weithiau ar fyr rybudd, yn unol â'u dyletswyddau o dan adran 79 o Ddeddf 2014. Weithiau, gwneir hyn drwy ddefnyddio adeilad gwag sy'n eiddo i'r cyngor neu drwy ddefnyddio eiddo gwag sydd ar gael i'w rentu a chynnull grŵp o staff neu drwy gysylltu â darparwr cartrefi plant preifat. Mae'r trefniadau hyn yn aml yn gyfystyr â chartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad.

9. O dan adran 5 o Ddeddf 2016, mae'n drosedd darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestriad. Mae Deddf 2016 yn cynnwys darpariaethau i'w gwneud hi'n haws i ddarparwyr cofrestredig presennol ychwanegu gwasanaethau newydd at eu portffolio drwy wneud cais am amrywiad i'w cofrestriad, yn hytrach na gorfod mynd drwy'r camau i gwblhau cofrestriad cwbl newydd, yn unol â'r drefn o dan ddeddfwriaeth flaenorol. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ddarparwr cofrestredig.

**Canfyddiadau allweddol**

- Mae diffyg darpariaeth briodol i blant a phobl ifanc â'r amrywiaeth mwyaf cymhleth o anghenion. Mae'r broblem hon wedi bodoli ers amser, ac o ganlyniad, mae gormod o blant wedi cael eu lleoli mewn gwasanaethau anghofrestredig a thrwy hynny, o bosibl, leihau'r cyfleoedd i ddiwallu eu hanghenion ac iddynt gyflawni eu canlyniadau personol.
- Yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, caiff y mwyafrif o'r gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad eu darparu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol eu hunain, nid gan ddarparwyr yn y sector annibynnol.
- Er bod rhai plant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn gwasanaethau dros dro sy'n gweithredu heb gofrestriad, nid yw'r un peth yn wir am eraill, gan gynnwys symudiadau niferus o un gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad i un arall. Gall yr ansefydlogrwydd hwn gael effaith negyddol ar ganlyniadau plant.
- Yn aml, nid yw'r safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau anghofrestredig a/neu safon y trefniadau a wneir i blant yn cyrraedd y safonau gofynnol i gael eu cofrestru.

- Mewn sawl achos, bu'r trefniadau staffio i ddarparu gofal a chymorth ar sail ad hoc ac yn newidiol iawn. Mae'r ffaith bod staff nad ydynt wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn neu'r person ifanc a'r ddibyniaeth ormodol ar staff asiantaeth yn peri pryder penodol.
- I rai plant, ni lwyddwyd i drefnu lleoliadau sefydlog am gyfnod cymharol hir, gan greu ansicrwydd i'r plant a'i gwneud hi'n anodd llunio cynlluniau tymor hwy ar eu cyfer nhw a'u teuluoedd.
- Mae diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn gyfrifoldeb rhianta corfforaethol amlasiantaethol. Gwelsom nad oedd pob partner yn ymrwymo i ddiwallu anghenion plant fel y dylent.

**Ein proses ar gyfer cartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad**

10. O ganlyniad i'r nifer cynyddol o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad, gwnaethom ddatblygu proses i'n galluogi i reoli'r gwasanaethau hyn yn gyson a'u goruchwylio. Roedd y broses hon yn berthnasol i unrhyw fath o wasanaeth a oedd o bosibl yn gweithredu heb gofrestriad, nid dim ond cartrefi gofal i blant. Ym mis Gorffennaf 2023, drwy gynnal trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, aethom ati i adolygu a diwygio ein proses.
11. Mae adran 5 o Ddeddf 2016 yn nodi ei bod yn drosedd darparu gwasanaeth neu wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru heb gofrestru i wneud hynny. Ein rôl yw gorfodi gofynion y gyfundrefn rheoleiddio.
12. Mae dyletswydd ar AGC i gymhwyso'r gyfraith a rheoliadau yn yr un ffordd at bob darparwr ac i sicrhau tegwch wrth reoleiddio i ddarparwyr awdurdod lleol a darparwyr preifat. Fodd bynnag, mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, rydym yn cydnabod bod cyfrifoldebau awdurdod lleol yn wahanol iawn i gyfrifoldebau darparwr preifat. Fel rhiant corfforaethol, mae dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gadw'r plant sy'n derbyn gofal ganddynt yn ddiogel ac i ddiwallu eu hanghenion. I'r gwrthwyneb, gall darparwr preifat ddewis a yw'n awyddus i ddarparu gwasanaeth i ofalu am blentyn neu wrthod rhoi'r trefniant ar waith. Yn ogystal, nid oes elfen fasnachol yn gysylltiedig â darparu gwasanaeth gofal gan awdurdod lleol.
13. Rydym hefyd yn deall y pwysau sylweddol sydd ar awdurdodau lleol i ddod o hyd i leoliadau addas i bobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth. Rydym yr un mor ymwybodol o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i leoliadau i bobl ifanc sy'n destun gorchmynion sicrhau llesiant.
14. Camau gorfodi troseddol yw'r unig gamau ffurfiol y gallwn eu cymryd yn erbyn darparwr anghofrestredig. Gan nad yw'r gwasanaeth wedi'i gofrestru, ni allwn ddefnyddio ein pwerau gorfodi sifil. Mae gennym bwerau hefyd i adolygu

perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cynnwys diogelu plant a sicrhau digonolrwydd lleoliadau.

15. Rydym yn ceisio gweithredu mewn ffordd gymesur ar sail achosion unigol wrth wneud unrhyw benderfyniadau gorfodi. Bydd unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd yn unol â'n gwerthoedd a'n hegwyddorion. Yn benodol, bydd llais a llesiant pobl wrth wraidd ein penderfyniadau, wedi'u hategu gan ddull gweithredu seiliedig ar hawliau (mae hyn yn golygu ein bod yn hyrwyddo hawliau pobl ac yn gofyn i bobl am adborth am eu profiad a'r canlyniadau y mae'n eu helpu i'w cyflawni). Byddwn yn deg ac yn gweithredu mewn ffordd gymesur, gan ystyried amgylchiadau a ffeithiau pob achos unigol.

**Nifer y cartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad**

16. Mae Tabl 1 yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr hysbysiadau a gafwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau a oedd o bosibl yn gartrefi gofal i blant a oedd yn gweithredu heb gofrestriad yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Yn dilyn pob hysbysiad, cynhaliodd ein tîm gorfodi adolygiad cychwynnol i'n galluogi i benderfynu a ddylid cyflwyno'r hysbysiad i'n Panel Gwella a Gorfodi. Ni chaiff gwasanaethau eu hatgyfeirio at y panel os bydd y dystiolaeth yn awgrymu na wnaethant fodloni'r trothwy ar gyfer cofrestru, er enghraifft gwasanaethau sy'n darparu llety a chymorth i bobl dros 16 oed yn unig. Nid oes angen i'r math hwn o wasanaeth gofrestru ag AGC, ond mae angen i wasanaethau sy'n darparu llety a gofal gofrestru.

| **Tabl 1:<br>Nifer yr hysbysiadau am achosion posibl o gartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad** | |
|---|---|
| **Cyfanswm nifer yr hysbysiadau am achosion posibl o gartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad** | **189** |
| Cyflwynwyd yr achos i'r Panel Gwella a Gorfodi | 108 |
| Ni chyflwynwyd yr achos i'r Panel Gwella a Gorfodi | 81 |

17. Fel y gwelir yn Nhabl 2, nid yw'r Panel Gwella a Gorfodi yn penderfynu bod pob gwasanaeth a gaiff ei ystyried ganddo yn wasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft, ceir tystiolaeth mai dim ond llety a chymorth sy'n cael eu rhoi, ac nad oes unrhyw ofal yn cael ei roi.

| **Tabl 2: Canlyniad Paneli Gwella a Gorfodi i gartrefi gofal i blant** | |
|---|---|
| Penderfynwyd nad ydynt yn gweithredu heb gofrestriad | 16 |
| Penderfynwyd eu bod yn gartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad | 92 |
| **Cyfanswm nifer y gwasanaethau a ystyriwyd gan y Panel Gwella a Gorfodi** | **108** |

18. O'r 92 o wasanaethau y penderfynwyd eu bod yn gweithredu heb gofrestriad, cafodd nifer bach eu cofrestru. Mae'n bwysig nodi nad yw pob gwasanaeth sy'n gwneud cais i gofrestru yn llwyddiannus, gan yn aml nad yw'r safle a ddefnyddir yn cyrraedd y safonau ar gyfer cofrestru. O'r gwasanaethau sy'n weddill, rhoddodd tua hanner ohonynt y gorau i weithredu, ac roedd y gwasanaethau eraill yn gweithredu o hyd ar 31 Mawrth 2023.

19. Er mwyn rhoi cyd-destun, gwnaethom gofrestru 31 o gartrefi gofal newydd i blant yn 16 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystod 2022/23. O ganlyniad, roedd 45 o leoedd newydd ar gael i blant. Roedd pump ohonynt (16%) wedi'u cofrestru gan awdurdodau lleol.

**Awdurdodau lleol sy'n lleoli plant**

20. Mae darpariaethau cyffredinol rhan 6 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant sy'n derbyn gofal. Lle bydd cartrefi gofal yn gweithredu heb gofrestriad, nid yw'r camau diogelu sy'n gysylltiedig â'r cofrestriad ar waith ac felly mae angen i'r awdurdod lleol roi camau diogelu a goruchwylio ychwanegol ar waith. Gall hyn fod yn arbennig o wir pan fydd gweithwyr asiantaeth yn gweithio mewn cartref gofal anghofrestredig. Mae'n bwysig nodi nad yw asiantaethau gofal wedi'u cofrestru gan AGC ac nad oes unrhyw ofyniad ar hyn o bryd i weithwyr asiantaeth gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw gamau diogelu pellach ar waith.


21. Anaml y mae rhai awdurdodau lleol wedi gorfod sefydlu cartref gofal anghofrestredig i blant ac o blith y rhai sydd wedi gwneud hynny, mae llawer ohonynt wedi ceisio dod o hyd i leoliad sefydlog ar unwaith. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol wedi sefydlu gwasanaeth dros dro sy'n gweithredu heb gofrestriad yn amlach; neu nid ydynt wedi cymryd camau gweithredol i sicrhau bod plant yn treulio cyn lleied o amser â phosibl yn byw o dan y trefniadau hyn.

Mae hyn yn arwain at anawsterau sylweddol wrth gynnig trefniadau rheolaidd i rai plant ac mae'n creu ansicrwydd i'r plentyn a'i deulu.

22. Weithiau, mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio'r un eiddo sawl gwaith ar gyfer gwahanol blant. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau lle cafodd plentyn ei symud o un gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad i un arall pan fydd y lleoliad naill ai'n methu neu'n dod i ben am ryw reswm arall, er enghraifft pan fydd y cyfnod rhentu ar gyfer llety tymor byr yn dod i ben. Rydym yn pryderu y bydd gan lawer o blant sy'n derbyn gofal hanes o ansefydlogrwydd a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn barod. Mae cyfnodau pellach o ansefydlogrwydd mewn lleoliadau anghofrestredig niferus yn debygol o gael effaith negyddol ar ganlyniadau i'r plant a'r bobl ifanc hyn.

23. Mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o'r hysbysiadau a ddaw i law am wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad ond yn ymwneud ag un plentyn yn unig; fodd bynnag, weithiau bydd un hysbysiad yn ymwneud â mwy nag un plentyn yn cael ei leoli yn y gwasanaeth, ac felly gall nifer y plant dan sylw fod yn uwch na nifer y cartrefi gofal i blant sy'n gweithredu heb gofrestriad, fel y gwelir ar gyfer y cyfnod o amser a adlewyrchir yn yr adroddiad hwn.

24. Mae Siart 1 yn dangos yr awdurdodau lleol a wnaeth leoli plant mewn cartref gofal y penderfynodd AGC ei fod yn gweithredu heb gofrestriad yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.




25. Wrth ddarparu neu sicrhau llety, comisiynodd rhai awdurdodau lleol ddarparwyr neu asiantaethau gofal annibynnol i ddarparu gofal. Yn 2022/23, penderfynwyd gennym fod 14 o ddarparwyr annibynnol yn darparu gofal fel rhan o wasanaethau a oedd yn gweithredu heb gofrestriad ar 81 o achlysuron. Roedd hyn yn cynnwys un asiantaeth gofal a ddefnyddiwyd i ddarparu gweithwyr gofal asiantaeth ar 45 o achlysuron.

26. Cawsom ein hysbysu hefyd am 15 o blant eraill a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru ond a oedd yn byw mewn gwasanaethau a oedd o bosibl yn gweithredu heb gofrestriad yn Lloegr. Nid yw'r rheoliadau yng Nghymru yn berthnasol i'r gwasanaethau hyn, ond rydym yn rhannu'r wybodaeth hon â'r rheoleiddiwr yn Lloegr, sef Ofsted.


**Rhesymau dros leoli mewn gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad**

27. Mae Siart 2 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r cartrefi gofal i blant a oedd yn gweithredu heb gofrestriad wedi dechrau gweithredu oherwydd lleoliad neu sefyllfa lle roedd teulu wedi chwalu ac nad oedd yr awdurdod lleol yn gallu dod o hyd i leoliad cofrestredig addas i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc ar fyr rybudd.



**Hyd yr amser y gwnaeth gwasanaethau weithredu heb gofrestriad**


28. Mae Siart 3 yn dangos bod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi gweithredu heb gofrestriad am gyfnod rhwng 31 a 60 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd y trefniadau i weithredu heb gofrestriad ar waith am gyfnodau hir ac roedd yn destun pryder i ni nad yw'r darparwr wedi cymryd camau digonol i gofrestru'r gwasanaeth neu i ddod o hyd i gartref amgen i'r plentyn.




**Proffil plant sy'n byw mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad**

29. Yn aml, mae gan y plant a'r bobl ifanc sy'n byw mewn gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth iawn, a byddai cymorth fel rhan o wasanaeth i berson unigol (neu leoliad maeth) o fudd iddynt. I rai, bydd eu lleoliad presennol wedi dod i ben yn dilyn digwyddiadau a achosodd i'r darparwr benderfynu na allai ofalu am y plentyn yn ddiogel mwyach, a diwallu anghenion plant eraill sy'n byw yn y cartref ar yr un pryd.

30. Mae Siart 4 yn dangos oedran y plant sy'n byw mewn lleoliadau cartrefi gofal anghofrestredig. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn 14 neu 15 oed. Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau o blant o dan 10 oed yn cael eu lleoli yn y mathau hyn o drefniadau.




31. Mae Tabl 3 yn dangos, ar gyfer y lleoliadau hynny mewn gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad a ddechreuodd ac a ddaeth i ben yn ystod y cyfnod amser y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef, ystod oedran y plant ac am ba hyd y buont yn byw yn y gwasanaeth hwnnw. Er bod hyd yr amser y mae plant yn byw mewn gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad yn destun pryder cyffredinol, rydym yn pryderu'n benodol am addasrwydd y trefniadau hyn a'u heffaith ar blant iau.

| **Tabl 3** | **Hyd lleoliadau** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran y plentyn** | 1 - 14 | 15 - 30 | 31 - 60 | 61 - 90 | 91 - 100 | 101 - 150 | 151 - 221 | 222 - 365 |
| 9 oed | | | | | | | | |
| 10 oed | | | | | | | | |
| 11 oed | | | | | | | | |
| 12 oed | | | | | | | | |
| 13 oed | | | | | | | | |
| 14 oed | | | | | | | | |
| 15 oed | | | | | | | | |
| 16 oed | | | | | | | | |
| 17 oed | | | | | | | | |

32. Cawsom wybod gan rai awdurdodau lleol fod y plentyn neu'r person ifanc wedi gallu cael rhywfaint o sefydlogrwydd drwy drefniadau staffio dwys mewn gwasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestriad, ond, fel y nodir uchod, lleoliadau

dros dro yw'r rhan fwyaf o'r lleoliadau ac felly yn aml, dim ond am gyfnod byr y bydd unrhyw sefydlogrwydd yn para.

**Casgliad**

33. Fel rheoleiddiwr, yn naturiol rydym yn pryderu am wasanaethau sy'n gweithredu'n anghyfreithlon. Fodd bynnag, ein prif bryder yw'r canlyniadau i blant a'r risgiau posibl i'w diogelwch a'u llesiant pan fyddant yn derbyn gofal mewn gwasanaeth anghofrestredig. Mae awdurdodau lleol yn eu disgrifio wrthym fel 'yr opsiwn lleiaf gwael' i rai plant. Yn ogystal â'r ffaith na fydd y camau diogelu sy'n gysylltiedig â gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru ar gael i'r plant, gall hefyd fod yn anos iddynt gael gafael ar addysg a chymorth gofal iechyd gan eu bod yn byw mewn cyfeiriad dros dro. Yn ogystal, bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o blant symud i wasanaeth arall ac, fel y cyfryw, byddant yn wynebu mwy o darfu.

34. Rydym yn deall y bydd sefyllfaoedd brys yn codi lle y bydd gan awdurdod lleol ddyletswydd gofal tuag at blentyn y mae angen gofal a llety arno. Rydym wedi bod yn ystyried dulliau gweithredu yn hyn o beth o bob cwr o'r DU ac Iwerddon. Er enghraifft, yn Iwerddon, mae eithriad ar waith am gyfnod byr, i bob pwrpas, er mwyn gallu rhoi trefniadau addas ar waith. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am newid deddfwriaeth, nid AGC.

35. Rydym yn gwybod bod awdurdodau lleol yn awyddus i osgoi lleoli plant mewn gwasanaethau anghofrestredig. Rydym yn ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu profiad plant y bu'n rhaid iddynt fyw mewn gwasanaeth anghofrestredig er mwyn deall unrhyw themâu a thueddiadau sydd wedi arwain at y sefyllfa hon, gyda'r bwriad o nodi atebion sy'n berthnasol i Gymru gyfan.

36. Byddwn yn rhoi sylw penodol i gynlluniau comisiynu awdurdodau lleol y mae'n rhaid iddynt weithio gyda'u partneriaid i sicrhau bod digon o wasanaethau ar gael i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod y gall fod angen atebion ar lefel ranbarthol neu hyd yn oed ar lefel genedlaethol. Dylai'r materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn fod o ddiddordeb i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

**Atodiad 1 – Canllawiau ar gofrestru**

**Canllaw i Gofrestru – Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

Mae tudalennau 32-33 o'r canllawiau yn darparu gwybodaeth am y diffiniad o gartref gofal.

**Atodiad 2 – Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi**

Mae ein ‘Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi’ yn esbonio beth y byddwn yn ei wneud os na fydd gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd da neu os na fyddant yn bodloni gofynion y gyfraith.

Rydym yn defnyddio ein pwerau gorfodi i sicrhau bod darparwyr yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol ac rydym yn cadarnhau i weld bod y newidiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith.

**Ein dulliau gorfodi | Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 3 – Canllawiau ymarfer diwygiedig gan Lywydd yr Adran Deulu**

**Canllawiau ymarfer diwygiedig ar y modd y mae’r Llys yn ymdrin â lleoliadau digofrestredig** (Dogfen Saesneg yn unig)